# Y PWYLLGOR LLYWODRAETH LEOL A THAI

## COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Mercher 28 Chwefror 2001 |
| **Amser:** | 9.30am hyd 12.05pm |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora 2, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol |

**Yn bresennol:**

*Aelodau:*

| | |
|---|---|
| Gwenda Thomas | Castell-nedd |
| (Cadeirydd) | |
| Edwina Hart | Gyr |
| (Gweinidog) | |
| Peter Black | Gorllewin De Cymru |
| (Dirprwy Weinidog) | |
| Janet Davies | Gorllewin De Cymru |
| William Graham | Dwyrain De Cymru |
| Peter Law | Blaenau Gwent |
| Janet Ryder | Gogledd Cymru |
| *Yn bresennol:* | |
| Adam Peat | Cyfarwyddwr, Grp Llywodraeth Leol a Thai (eitemau 3 i 7) |
| Gwilym Evans | Yr Is-adran Cyllid Llywodraeth Leol (eitemau 3 a 4) |

| | |
|---|---|
| Alan Thornton | Yr Is-adran Cyllid Llywodraeth Leol (eitem 4) |
| Norma Barry | Yr Uned Adfywio Cymunedau a Chynhwysiant Cymdeithasol (eitem 5) |
| Kate Cassidy | Yr Is-adran Moderneiddio Llywodraeth Leol (eitemau 6 a 7) |
| Frank Cuthbert | Yr Is-adran Moderneiddio Llywodraeth Leol (eitem 6) |
| Richard Shearer | Yr Is-adran Moderneiddio Llywodraeth Leol (eitem 7) |
| John Bader | Cyfarwyddwr Tai (eitem 8) |
| Judy Wayne | Ymgynghorydd arbenigol (eitem 8) |
| Helen Lentle | Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol |
| *Ysgrifenyddiaeth:* | |
| Martin Stevenson | Clerc y Pwyllgor |
| Sarah Williams | Dirprwy Glerc y Pwyllgor Dros Dro |

**Eitem 1: Ymddiheuriadau ac eilyddion**

1.1 Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Dai Lloyd a Tom Middlehurst.

**Eitem 2: Datgan buddiannau**

2.1 Gwnaethpwyd y datganiadau isod:

- Dywedodd Peter Black ei fod yn Aelod o Gyngor Dinas a Sir Abertawe;
- Dywedodd Janet Davies ei bod yn Gadeirydd Cyngor Cymuned Llanhari;
- Dywedodd William Graham ei fod yn Aelod o Gyngor Bwrdeistref Sirol Casnewydd;
- Dywedodd Janet Ryder ei bod yn Aelod o Gyngor Tref Rhuthun.

**Eitem 3: Adroddiad y Gweinidog: LGH-03-01 (p.1)**

3.1 Wrth gyflwyno ei hadroddiad, dywedodd y Gweinidog nad oedd wedi ysgrifennu at Pauline Jarman eto yngln â threfniadau bilio a chasglu'r dreth gyngor, fel y nodwyd ym mharagraff 11. Cyn ysgrifennu, yr oedd y Gweinidog yn awyddus i gael barn y Pwyllgor ar y mater hwn. Teimlai'r Aelodau na fyddai'n gost-effeithiol symud oddi wrth y trefniadau presennol lle mae awdurdodau lleol yn casglu'r dreth gyngor nid yn unig drostynt eu hunain ond hefyd ar ran awdurdodau'r heddlu a chynghorau cymuned. Fodd bynnag, teimlai'r Pwyllgor y dylai'r Gweinidog, mewn ymgynghoriad â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, ystyried a fyddai'n bosibl cael mwy o eglurder drwy wella fformat y bil.

3.2 Codwyd y pwyntiau hyn hefyd wrth drafod yr adroddiad:

- Croesawai'r Aelodau gynnig y Gweinidog i ostwng cyfraniad cynghorau tuag at y cynllun gostyngiad treth dewisol o 25 y cant i 10 y cant gan ddod i rym o 2002-03. Byddai'r newid hwn yn annog cynghorau i ganiatáu mwy o ostyngiadau dewisol i fusnesau gwledig bach a chlybiau chwaraeon, heb unrhyw oblygiadau cost i'w trethdalwyr. Cytunodd y Gweinidog y byddai'n darparu canllawiau ar y cynllun presennol, sy'n cael ei adolygu'n rheolaidd.
- Nododd y Pwyllgor ddosbarthiad y Cymeradwyaethau Credyd Atodol i gynorthwyo cynlluniau tai strategol yn 2001-02. Cytunodd y Gweinidog i ystyried sut yr oedd amddifadedd cymdeithasol yn cael ei adlewyrchu yn y meini prawf ar gyfer y cynllun hwn cyn y byddai'n bryd cyflwyno ceisiadau yng nghylch ymgeisio 2002-03.
- Ar y cynllun Rural Homebuy, roedd yna bryder bod y gostyngiad yn y Grant Tai Cymdeithasol i Wynedd ac Ynys Môn yn mwy na dileu mantais y cyllid ychwanegol a oedd yn cael ei ddarparu. Cytunodd y Gweinidog i ymchwilio i'r pwynt hwn a hysbysu'r Aelodau o'r canlyniad. Cytunodd hefyd i gynnwys y canllawiau ar y cynllun gyda'i hadroddiad i'r cyfarfod ar 28 Mawrth.
- Croesawai'r Pwyllgor y ffaith bod y flaenraglen o ddeddfwriaeth llywodraeth leol a thai wedi'i chynnwys yn yr adroddiad. Yr oedd yna beth pryder na fyddai'r Gorchmynion i roi Deddf Llywodraeth Leol 2000 ar waith yn cael eu hystyried mewn cyfarfod llawn. Cytunodd y Gweinidog i ystyried pa un y gallai'r Gorchmynion hyn ddod o dan y drefn safonol yn hytrach na'r drefn gyflym. Teimlai y byddai'n bosibl i'r ddeddfwriaeth gael ei hystyried mewn cyfarfod llawn ym mis Mehefin.

3.3 Cyhoeddodd y Gweinidog ei bod yn ystyried gwneud Gorchymyn i ganiatáu i awdurdodau lleol roi sylw i faterion a bennir yn rhai anfasnachol ar hyn o bryd wrth iddynt ystyried tendrau a dyfarnu contractau. Atgynhyrchir testun llawn datganiad y Gweinidog yma yn **Atodiad 1**. Croesawai'r Aelodau y cynnig hwn, gan y teimlent y gallai helpu awdurdodau lleol i hybu datblygu cynaliadwy drwy ddefnyddio llafur lleol a deunyddiau lleol. Yr oedd yna bryder fodd bynnag y gallai gwneud y broses dendro yn fwy cymhleth mewn unrhyw ffordd fod yn rhwystr i gwmnïau bach rhag ymgeisio am gontractau gyda'r cyngor. Cytunodd y Gweinidog i ddod â phapur gerbron ar gyfer cyfarfod 28 Mawrth ar oblygiadau'r Gorchymyn arfaethedig.

3.4 Dywedodd y Gweinidog hefyd ei bod yn ystyried pa un y dylai glustnodi mwy o gyllid i Ymddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo. Nid oedd wedi'i hargyhoeddi mai cyfeirio cyllid Cymreig

drwy'r Ymddiriedolaeth fyddai'n sicrhau'r manteision mwyaf effeithiol i gymunedau lleol. Un o amcanion y fenter *Rhoi Cymunedau'n Gyntaf* oedd symleiddio'r nifer o gynlluniau sy'n cystadlu yn erbyn ei gilydd, ac yr oedd yn anodd gweld sut y gallai'r Ymddiriedolaeth gymryd ei lle o fewn y model o gynlluniau gweithredu strategol, yn cael eu gyrru gan y gymuned, a ragwelid yn *Rhoi Cymunedau'n Gyntaf*. Nid oedd y Gweinidog wedi'i hargyhoeddi ychwaith y gallai'r Ymddiriedolaeth weithio'n effeithiol gyda mudiadau eraill yn y sector gwirfoddol yng Nghymru. At ei gilydd, dywedodd y Gweinidog nad oedd o blaid ailddyrannu rhagor o gyllid i'r Ymddiriedolaeth, ond gwahoddodd yr Aelodau i gyflwyno eu barn iddi cyn iddi wneud penderfyniad terfynol.

**Eitem 4: Papur ymgynghorol cyllid llywodraeth leol: LGH-03-01 (p.2)**

4.1 Cyn gwahodd y Gweinidog i gyflwyno'r eitem hon, hysbysodd y Cadeirydd yr Aelodau fod Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi gofyn am y cyfle i gyflwyno'i barn ar system cyllid llywodraeth leol. Byddai'r Gymdeithas yn rhoi cyflwyniad yn y cyfarfod ar 14 Mawrth.

4.2 Dywedodd y Gweinidog y cafwyd ymateb cadarnhaol i'r cynigion a gyflwynwyd yn y papur ymgynghorol *Symleiddio'r System.* Yr oedd yn awyddus i weithio gyda llywodraeth leol ac eraill i lywio dyfodol system cyllid llywodraeth leol yng Nghymru. Byddai'n rhaid cael deddfwriaeth sylfaenol ar gyfer llawer o'r cynigion, a byddai'r Gweinidog yn cysylltu'n agos â Llywodraeth y DU i sicrhau bod yr hyblygrwydd mwyaf posibl yn cael ei roi i'r Cynulliad Cenedlaethol i ddatblygu polisïau neilltuol i Gymru. Gwahoddodd y Gweinidog sylwadau'r Pwyllgor i gynorthwyo'r Cabinet wrth iddo ystyried yr ymatebion a'r ffordd ymlaen.

4.3 Codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- O ran y grant refeniw, yr oedd yr Aelodau o blaid cadw'r fformwla asesiad gwario safonol a oedd wedi'i hailwampio'n ddiweddar. Yr oedd y Pwyllgor yn awyddus i'r gwaith o fireinio'r fformwla barhau, a mynegwyd pryder gan rai Aelodau nad oedd y fformwla newydd yn rhoi digon o bwysau i boblogaeth wasgaredig nac amddifadedd. Yr oedd cefnogaeth hefyd i setliad refeniw heb ei glustnodi, gyda defnydd cyfyngedig o grantiau penodol.
- O ran y system cyllid cyfalaf, yr oedd yna gefnogaeth i newid y rheolaeth dros fenthyca sy'n bodoli ar hyn o bryd am drefniadau symlach, mwy hyblyg ar batrwm y system ddarbodus a gâi ei chynnig. Awgrymwyd y dylai Cabinet y Cynulliad wthio'r achos o blaid newid rheolau caeth Gofyniad Benthyca'r Sector Cyhoeddus fel y byddai awdurdodau lleol yn rhydd i fenthyca er mwyn buddsoddi yn eu stoc tai.
- Awgrymwyd hefyd na ddylai fod yn ofynnol i awdurdodau lleol gadw unrhyw gyfran o'u derbyniadau cyfalaf i'r naill ochr.
- Yr oedd yna gefnogaeth i fynd ati'n fuan i ailbrisio yng nghyswllt y dreth gyngor, er mwyn gwneud y dreth yn decach. Awgrymwyd y dylid adolygu bandiau'r dreth gyngor law yn llaw â'r ailbrisio. Teimlai un Aelod y dylid ailwampio'r dreth gyngor yn radical, gan sefydlu treth incwm leol yn lle'r system bresennol sydd wedi'i seilio ar eiddo.
- O ran trethi busnes, yr oedd yna rywfaint o gefnogaeth i'r gyfradd leol atodol sy'n cael ei

chynnig. Fodd bynnag, teimlai'r Aelodau ei bod yn bwysig i gynghorau a'r gymuned fusnes leol allu cydweithredu. Awgrymwyd mai dim ond pe bai cytundebau partneriaeth cryf wedi'u sefydlu i warchod buddiannau busnes y byddai'r cynigion yn gweithio.

- Teimlai rhai Aelodau ei bod yn hen bryd ailwampio'r system trethi annomestig cenedlaethol yn radical. Awgrymwyd y dylid un ai rhoi trethi busnes yn ôl o dan reolaeth yr awdurdodau lleol neu y dylid newid sail y trethu i werth y tir yn hytrach na gwerth y rhent gosod. Dylai'r drefn olaf hon annog datblygu safleoedd tir llwyd.
- Yr oedd yna rywfaint o gefnogaeth i'r cynllun gostyngiadau treth arfaethedig i fusnesau bach, a gâi ei anelu at fusnesau gyda gwerth trethiannol o lai na £10,000.
- Teimlai'r Aelodau ei bod yn bwysig cael mwy o dryloywder ac atebolrwydd o fewn y system cyllido addysg. Yn unol â barn gyffredinol y Pwyllgor ar glustnodi cyllid, yr oedd yna gefnogaeth i weithredu ar sail mesur canlyniadau, fel a nodir yn y cytundebau polisi arfaethedig. Fodd bynnag, teimlai un Aelod y byddai'n fwy priodol i'r Cynulliad Cenedlaethol dorri'r asesiadau gwariant safonol i lawr yn flociau gwasanaeth. Awgrymwyd bod angen mwy o eglurder yng nghyllidebau awdurdodau lleol, fod bod pobl leol yn ymwybodol o faint a phatrwm y gwariant ar wasanaethau addysg.
- Cafwyd rhywfaint o drafod yngln â phridiannu'r Cyfrif Refeniw Tai, rhywbeth a gyflwynwyd i atal traws-gymhorthdal rhwng tai a swyddogaethau eraill cynghorau. Ymrwymodd y Gweinidog i ddarparu nodyn cyfarwyddyd ar y modd yr ymdrinnir ag ad-daliadau rhent yn y Cyfrif Refeniw Tai.

4.4 Gwahoddodd y Cadeirydd y Gweinidog i gymryd barn y Pwyllgor ar system cyllid llywodraeth leol i ystyriaeth.

**Eitem 5: Adroddiad blynyddol ar anfantais gymdeithasol: LGH-03-01 (p.3)**

5.1 Wrth gyflwyno'r papur, dywedodd y Gweinidog fod y Cynulliad Cenedlaethol wedi ymrwymo i gyhoeddi adroddiad blynyddol ar gynhwysiant cymdeithasol. Dangosai'r adroddiad cyntaf, oedd i gael ei drafod yn y cyfarfod llawn ar 8 Mawrth, ymrwymiad y Cynulliad i fynd i'r afael ag anfantais gymdeithasol, gan roi crynodeb o'r materion perthnasol, yr hyn a gyflawnwyd hyd yma a'r cynlluniau ar gyfer y dyfodol. Y bwriad oedd rhyddhau'r adroddiad llawn yn ogystal â chrynodeb byrrach, haws cael gafael arno. Gwahoddwyd sylwadau ar gynnwys yr adroddiad a'i ddiwyg.

5.2 Codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- Croesawai'r Pwyllgor yr adroddiad cyntaf a oedd, fe deimlai, yn rhoi sylfaen gadarn i ddatblygu arni dros y blynyddoedd i ddod. Teimlai'r Aelodau ei bod yn bwysig i adroddiadau dilynol gynnwys mecanweithiau a'i gwnâi'n bosibl monitro cynnydd, er enghraifft, gwybodaeth am y canlyniadau a ddymunir.
- Yr oedd yna bryder yngln â'r diffyg cyfeiriadau at Flaenau Gwent yn yr adroddiad, fel un o ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru.
- Croesawai'r Aelodau y cyfeiriadau at swyddfeydd post yn yr adroddiad, o ystyried eu rôl bwysig er mynd i'r afael ag allgáu cymdeithasol. Dywedwyd bod Cadeirydd Bwrdd Swyddfa'r Post yng Nghymru yn awyddus i Swyddfa'r Post fod yn rhan o *Rhoi*

*Cymunedau’n Gyntaf.*

- Yr oedd y Pwyllgor yn cefnogi cyhoeddi’r adroddiad ffurfiol a thaflen yn crynhoi’r prif faterion. Teimlid y dylai’r taflenni fod ar gael yn eang, er enghraifft, mewn llyfrgelloedd, meddygfeydd a swyddfeydd post.

5.3 Gwahoddodd y Cadeirydd y Gweinidog i gymryd barn y Pwyllgor ar yr adroddiad i ystyriaeth. Ymrwymodd y Gweinidog i ddod â phapur gerbron maes o law yn nodi cynigion ar gyfer adroddiad 2002, gan gynnwys opsiynau ar gyfer cloriannu cynnydd ac opsiynau o ran diwyg yr adroddiad.

**Eitem 6: Strwythurau rheoli gwleidyddol: LGH-03-01 (p.4)**

6.1 Wrth gyflwyno’r papur, dywedodd y Gweinidog fod yr ymarferiad ymgynghori ar Ran 2 Deddf Llywodraeth Leol 2000 yn tynnu tua’r terfyn. Rhoddai’r papur grynodeb o’r ymatebion hyd yma. Yn ychwanegol, disgwylid atborth o gynhadledd ar y cyd â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, yr Archwilwyr Dosbarth a Syniad. Byddai’r is-ddeddfwriaeth a’r canllawiau i gyd yn dod i rym ar 28 Gorffennaf, ac wedi hynny byddai gan awdurdodau lleol chwe mis i ymgynghori â'u hetholwyr, penderfynu pa fodel y maent yn ei ffafrio a chyflwyno cynigion i’r Cynulliad Cenedlaethol. Dylai’r strwythurau newydd fod yn weithredol erbyn diwedd Mai 2002.

6.2 Codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- O safbwynt strwythurau rheoli gwleidyddol, yr oedd yr Aelodau’n awyddus i roi cymaint â phosibl o hyblygrwydd i awdurdodau lleol i ddethol a chyfuno elfennau o’r gwahanol opsiynau gweithredol a’r hyn a elwir y Pedwerydd Opsiwn, lle bo hynny’n bosibl. Byddai hyn yn caniatáu i awdurdodau ddatblygu’r strwythurau sy’n gweddu orau i amgylchiadau lleol.
- Teimlai’r Aelodau nad oedd y Pedwerydd Opsiwn yn wahanol iawn i fodel y cabinet gweithredol, ac nad oedd felly yn cynnig dewis amgen gwirioneddol i awdurdodau a oedd yn awyddus i gadw strwythur pwyllgorau. Nodwyd bod y canllawiau drafft ar y Pedwerydd Opsiwn a gyhoeddwyd gan Adran yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a’r Rhanbarthau bron yr un mor orchmynnol â'r canllawiau a gynigiwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol, yn adlewyrchu’r angen i wahanu’r swyddogaethau gweithredol a’r swyddogaethau manylu.
- Cafwyd rhywfaint o drafod ar un o argymhellion ymchwiliad Waterhouse i gam-drin plant yng Ngogledd Cymru, a oedd wedi cyfeirio at ‘y pwyllgor o fewn awdurdod lleol sy’n gyfrifol am blant’. Dywedodd Kate Cassidy fod y canllawiau drafft yn nodi sut y dylai awdurdodau lleol ymdrin â dyrannu’r cyfrifoldebau am wasanaethau i blant mewn angen o fewn y strwythurau rheoli newydd. Yn ychwanegol, yr oedd yna fesurau diogelu perthnasol yn y Cod Ymddygiad i Aelodau ac yn y Cyfarwyddiadau ar Gynnwys Cyfansoddiadau.
- Awgrymwyd na fyddai mabwysiadu’r strwythurau newydd, yn enwedig y rôl newydd i aelodau ‘meinciau-cefn’ o dan y modelau gweithredol, yn gwneud fawr i annog pobl i geisio dod yn gynghorwyr.
- O safbwynt hawl i wybodaeth, cafwyd cefnogaeth i’r cynnig i newid y canllawiau i’w gwneud yn glir y gallai aelodau cabinet gwrdd yn breifat i gynnal eu trafodaethau, gyda swyddogion yn bresennol i’w cynghori. Dim ond yn unol â'r eithriadau a bennir gan Ddeddf Llywodraeth

Leol 1972 y byddai'r gallu hwn i gwrdd yn breifat yn cael ei ganiatáu. Fodd bynnag, teimlai un Aelod y dylai'r broses penderfynu yn ei chyfanrwydd gael ei chynnal yn agored, i sicrhau ei bod yn dryloyw. Awgrymwyd hefyd y dylai Cabinet y Cynulliad Cenedlaethol fod yn ddarostyngedig i'r un gofynion â chabinetau cynghorau.

- O ran manylu, teimlai'r Pwyllgor y byddai'n bwysig sicrhau hyfforddiant priodol i aelodau pwyllgorau manylu, yn ogystal â chefnogaeth ddigonol i'r pwyllgorau. Awgrymwyd y dylai'r Cynulliad Cenedlaethol ddarparu adnoddau digonol i wneud yn sir y gallai awdurdodau lleol fforddio staff ar wahân ar gyfer y swyddogaeth manylu.
- Cafwyd rhywfaint o drafod yngln â rôl archwilwyr mewnol o fewn awdurdodau lleol, gan gydnabod bod honno'n rôl wahanol i'r rôl manylu. Cytunodd y Gweinidog y gallai rôl archwilwyr mewnol gael ei hystyried ymhellach yng nghyd-destun y papur sydd i'w gyflwyno i'r Pwyllgor yn fuan ar y fframwaith moesegol i lywodraeth leol.
- Er bod pryderon wedi'u mynegi gan rai awdurdodau lleol, teimlai'r Pwyllgor ei bod yn bwysig i awdurdodau ymgynghori â'u hetholwyr ynghylch y strwythurau rheoli gwleidyddol y maent yn bwriadu eu sefydlu.

6.3 Gwahoddodd y Cadeirydd y Gweinidog i gymryd barn y Pwyllgor i ystyriaeth wrth fwrw ymlaen i roi Rhan 2 Deddf Llywodraeth Leol 2000 ar waith.

**Eitem 7: Dangosyddion Perfformiad Gwerth Gorau 2001-02: LGH-03-01 (p.5)**

7.1 Wrth gyflwyno'r papur, dywedodd y Gweinidog i'r ymgynghoriad diweddar geisio barn y sawl yr ymgynghorwyd â hwy ar gyfres llawer iawn llai o Ddangosyddion Perfformiad Gwerth gorau, ynghyd â bod y Cynllun Perfformiad Gwerth Gorau i'w gyhoeddi ar 30 Mehefin heb fod gofyn cynhyrchu Cynllun drafft ar 31 Mawrth. Cafwyd cefnogaeth eang i'r cynigion hyn. Yng ngoleuni'r ymgynghoriad, dywedodd y Gweinidog ei bod o blaid ailgyflwyno dau ddangosydd, yn ymwneud â rhestr wirio ar gyfer gorfodaeth Safonau Masnach ac y dylai llwybrau troed a hawliau tramwy eraill fod yn hawdd i'w defnyddio.

7.2 Dywedodd y Gweinidog hefyd fod Bwrdd yr Iaith Gymraeg wedi codi cwestiwn yngln â diffiniad y Cyfrifiad o ethnigrwydd, a ddefnyddir yn un o'r dangosyddion perfformiad, nad yw'n dangos Cymraeg o dan y categori Gwyn. Fodd bynnag, ffocws y dangosydd hwn yw'r nifer o bobl o gefndiroedd lleiafrifol ethnig a gyflogir gan yr awdurdod lleol, yn hytrach na hunaniaeth genedlaethol. Yn unol â chyngor y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol, awgrymwyd bod diffiniad llawn y Cyfrifiad o ethnigrwydd i'w gadw i sicrhau cysondeb â Deddf Diwygio Cysylltiadau Hiliol 2000.

7.3 Codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- Yr oedd yr Aelodau'n falch bod yr ymgynghoriad wedi cefnogi'r gostyngiad arfaethedig yn nifer y Dangosyddion Perfformiad Gwerth Gorau, ynghyd â'r newid i ddyddiad cyhoeddi'r Cynllun Perfformiad Gwerth Gorau. Cymeradwyasant gynnig y Gweinidog i ailgyflwyno dangosyddion ar Safonau Masnach a hawliau tramwy cyhoeddus.
- Nododd y Pwyllgor y byddai symud oddi wrth y gyfres dangosyddion perfformiad a ddefnyddir yn Lloegr yn lleihau'r gallu i wneud cymariaethau uniongyrchol rhwng

awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr. Fodd bynnag, teimlid y dylid rhoi blaenoriaeth i ddatblygu cyfres o ddangosyddion sy’n briodol i Gymru.
- Derbyniodd yr Aelodau y dylid seilio’r dangosydd ethnigrwydd ar ddiffiniad llawn y Cyfrifiad o ethnigrwydd.

7.4 Nododd y Pwyllgor ganlyniadau’r ymarferiad ymgynghori ar Ddangosyddion Perfformiad Gwerth Gorau 2001-02. Dywedodd y Gweinidog y câi Gorchymyn ei wneud erbyn 1 Ebrill yn pennu’r gyfres dangosyddion derfynol.

**Eitem 8: Adolygiad polisi ar drosglwyddo’r stoc tai: LGH-03-01 (p.6)**

8.1 Dywedodd y Cadeirydd fod y papur yn ymdrin â drafft llawn cyntaf adroddiad y Pwyllgor ar yr adolygiad polisi. Gwahoddodd yr Aelodau i gyflwyno unrhyw newidiadau drafftio i Glerc y Pwyllgor erbyn 9 Mawrth.

8.2 Dywedodd y Gweinidog ei bod wedi penderfynu gohirio cyhoeddi’r canllawiau ar drosglwyddo stoc, fel y gallai’r fersiwn terfynol gymryd materion a godai o’r adolygiad i ystyriaeth. Nododd hefyd fod rhai o’r argymhellion wedi’u newid i gymryd ei hymateb i’r argymhellion drafft i ystyriaeth. Dywedodd y Gweinidog ei bod yn awyddus i ystyried opsiynau eraill nad oeddynt wedi’u hadlewyrchu yn yr adroddiad, gan gynnwys ‘prydlesu stoc’ a ‘chyrff cymunedol cydfuddiannol’, gyda’r posibilrwydd o glymu’r ddau fodel wrth drefniadau contractyddol lle byddai’r awdurdod lleol yn darparu’r gwasanaethau rheoli neu gynnal a chadw.

8.3 Dywedodd Judy Wayne fod yr adroddiad wedi’i ddrafftio mewn modd a fyddai’n amlygu maint y broblem gyda’r stoc tai, y buddsoddiad sy’n ofynnol i foderneiddio’r stoc a’r ystod opsiynau sydd ar gael i awdurdodau lleol. Yr oedd yr adroddiad yn cynnwys rhai argymhellion newydd, yn ymwneud â chystadleuaeth yn y broses trosglwyddo stoc a chadw rhenti ar yr un lefel i bawb, gan adlewyrchu’r drafodaeth yn y sesiynau cyfarwyddo anffurfiol yn ddiweddar. Yn ychwanegol, dywedodd Judy Wayne ei bod yn paratoi nodyn ar ddyroddi bondiau a materion cyllido bondiau i’w gynnwys yn yr adroddiad.

8.4 Codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- Croesawai’r Aelodau yr adroddiad drafft, a gymerai eu trafodaeth ar yr argymhellion drafft i ystyriaeth. Cymeradwyasant y gydnabyddiaeth benodol a roddwyd i’r cyfyngiadau ariannol a chyfreithiol ym Mhennod 4.
- Cafwyd rhywfaint o drafod yngln â'r awgrym y dylid sefydlu Gweithrediaeth Tai i ymgymryd â rheolaeth holl stoc tai’r cynghorau, gan drosglwyddo’r stoc wedyn i Ymddiriedolaethau Tai lleol. Nid oedd yr Aelodau o’r farn bod hyn yn syniad ymarferol, yn enwedig gan y byddai’n rhaid wrth ddeddfwriaeth sylfaenol.
- Awgrymwyd y dylid adolygu geiriad argymhelliad 8, a gyfeiriai at ‘annog’ awdurdodau lleol i fwrw ymlaen â phrosiectau trosglwyddo stoc a PFI. Ar argymhelliad 15, yr oedd yna bryder o hyd y gallai cyrff trosglwyddo stoc ddatblygu dros amser i fod yn gyrff mawr amharod i ymateb i anghenion eu tenantiaid.

- Cafwyd rhywfaint o drafod pa un y dylid cynnwys cwmnïau hyd-braich yn yr adroddiad fel un o'r opsiynau sydd ar gael i awdurdodau lleol. Nodwyd bod cais wedi'i wneud yn yr ymgynghoriad sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd ar *Gartrefi Gwell i Bobl Cymru* am farn y sawl yr ymgynghorir â hwy ar hynny.
- Nodwyd y byddai yna gyfle i ystyried prydlesu stoc a chyrff cymunedol cydfuddiannol yn y cyfarfod ar 14 Mawrth. Yr oedd Trowers a Hamlins wedi eu gwahodd i roi cyflwyniad ar strwythurau cyfundrefnol yn y cyfarfod.
- Cafwyd rhywfaint o drafod yngln ag effaith trosglwyddo stoc ar yr Hawl i Brynu. Cytunodd y Cyfarwyddwr Tai i bennu'n glir ar ba ddyddiad y câi'r prisiad Hawl i Brynu ei osod yn ystod y broses trosglwyddo stoc.
- Nodwyd y bu yna gryn drafodaeth yngln â throsglwyddo stoc yn seminarau'r Sefydliad Siartredig Tai ar *Gartrefi Gwell i Bobl Cymru* yn ddiweddar. Cytunodd y Cyfarwyddwr Tai i ddarganfod pa un y gellid darparu'r atborth o'r seminarau i'r Pwyllgor cyn y cyfarfod ar 14 Mawrth.

8.5 Diolchodd y Cadeirydd i'r Aelodau am eu sylwadau. Dywedodd y câi drafft diwygiedig o'r adroddiad ei ystyried yng nghyfarfod 28 Mawrth.

**Eitem 9: Blaenraglenni gwaith: LGH-03-01 (p.7)**

9.1 Dywedodd y Cadeirydd fod y papur yn ceisio barn y Pwyllgor ar flaenraglenni gwaith pwyllgorau pwnc eraill, yn unol â'r gofyniad yn y rheolau sefydlog.

9.2 Nododd y Pwyllgor y pedair blaenraglen waith ddrafft a oedd ynghlwm wrth y papur. Dywedwyd bod Gweinidogion a Chadeiryddion y Pwyllgorau yn ceisio nodi materion trawsbynciol lle y byddai'n fanteisiol cydweithio, gan gymryd y cyfyngiadau ymarferol ar bwyllgorau pwnc i ystyriaeth.

**Eitem 10: Cofnodion cyfarfod 7 Chwefror: LGH-02-01 (min)**

10.1 Cytunwyd ar gofnodion cyfarfod 7 Chwefror.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Mawrth 2001**

**Atodiad 1**

**DATGANIAD GAN Y GWEINIDOG DROS GYLLID, LLYWODRAETH LEOL A CHYMUNEDAU AR ORCHYMYN ARFAETHEDIG O DAN ADRAN 19 DEDDF LLYWODRAETH LEOL 1999**

Mae gan y Cynulliad Cenedlaethol y per i wneud Gorchymyn o dan y ddeddfwriaeth Gwerth Gorau (Adran 19 Deddf Llywodraeth Leol 1999) i ganiatáu i awdurdodau lleol roi sylw i faterion a bennir ar hyn o bryd gan Ddeddf Llywodraeth Leol 1988 yn rhai "anfasnachol" wrth iddynt ystyried tendrau a dyfarnu contractau.

Mae Adran yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a’r Rhanbarthau ar fin sefydlu Gorchymyn o’r fath yn Lloegr.

Effaith y Gorchymyn fydd caniatáu i awdurdodau lleol roi ystyriaeth gyfreithlon i delerau ac amodau cyflogi gweithlu darpar gontractwyr – gan gynnwys ystyriaethau pwysig yn ymwneud â throsglwyddo pensiynau, polisïau hyfforddi a datblygu, gofynion statudol yn ymwneud â chyfle cyfartal, iechyd a diogelwch a chysylltiadau hil, a threfniadau trosglwyddo cyffredinol. Bydd hefyd yn caniatáu i awdurdodau ystyried ymddygiad contractwyr neu eu gweithwyr mewn anghydfodau diwydiannol.

Bwriadaf sefydlu Gorchymyn cyffelyb yng Nghymru. Yr wyf wedi gofyn i’r swyddogion ystyried, mewn ymgynghoriad â'r rhai sydd â buddiant, pa un y gallaf yn gyfreithlon ehangu cwmpas y Gorchymyn i gynnwys cyfres ehangach o ystyriaethau yng Nghymru.

Bydd yn ofynnol o hyd i awdurdodau lleol gydymffurfio â rheolau caffael yr Undeb Ewropeaidd ac egwyddorion ymarfer caffael da.

Law yn llaw â'r Gorchymyn ceir canllawiau statudol, y byddir yn ymgynghori’n eang arnynt cyn gwyliau’r haf. Yr wyf yn awyddus i sicrhau bod cyflogaeth deg wrth graidd y gwerth gorau, a bydd hyn yn elfen bwysig o’r agenda honno.

**Edwina Hart 28 Chwefror 2001**

**Atodiad 2**

**CRYNODEB PWYNTIAU GWEITHREDU O GYFARFOD 28 CHWEFROR**

1. Y Gweinidog, mewn ymgynghoriad â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, i ystyried a fyddai'n bosibl cael mwy o eglurder drwy wella fformat y bil treth gyngor (paragraff 3.1).

2. Cytunodd y Gweinidog y byddai'n darparu canllawiau ar y cynllun gostyngiadau treth dewisol sy'n bodoli ar hyn o bryd (paragraff 3.2).

3. Cytunodd y Gweinidog i ystyried, cyn y byddai'n bryd cyflwyno ceisiadau yng nghylch ymgeisio 2002-03, sut yr oedd amddifadedd cymdeithasol yn cael ei adlewyrchu yn y meini prawf a ddefnyddir i ddosbarthu Cymeradwyaethau Credyd Atodol i gynorthwyo cynlluniau tai strategol (paragraff 3.2).

4. Cytunodd y Gweinidog i ymchwilio er mwyn canfod a yw'r gostyngiad yn y Grant Tai Cymdeithasol i Wynedd ac Ynys Môn yn mwy na dileu mantais y cyllid ychwanegol a oedd yn cael ei ddarparu o dan y cynllun Rural Homebuy (paragraff 3.2).

5. Cytunodd y Gweinidog i gynnwys y canllawiau ar y cynllun Rural Homebuy gyda'i hadroddiad i'r cyfarfod ar 28 Mawrth (paragraff 3.2).

6. Cytunodd y Gweinidog i ystyried pa un y gallai'r Gorchmynion i roi Deddf Llywodraeth Leol 2000 ar waith ddod o dan y drefn safonol yn hytrach na'r drefn gyflym (paragraff 3.2).

7. Cytunodd y Gweinidog i ddod â phapur gerbron ar gyfer cyfarfod 28 Mawrth ar oblygiadau'r Gorchymyn arfaethedig i ganiatáu i awdurdodau lleol roi sylw i faterion a bennir yn rhai anfasnachol ar hyn o bryd wrth iddynt ystyried tendrau a dyfarnu contractau (paragraff 3.3).

8. Gwahoddodd y Gweinidog yr Aelodau i gyflwyno eu barn iddi pa un y dylid clustnodi rhagor o gyllid ar gyfer Ymddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo (paragraff 3.4).

9. Ymrwymodd y Gweinidog i ddarparu nodyn cyfarwyddyd ar y modd yr ymdrinnir ag ad-daliadau rhent yn y Cyfrif Refeniw Tai (paragraff 4.3).

10. Ymrwymodd y Gweinidog i ddod â phapur gerbron maes o law yn nodi cynigion ar gyfer Adroddiad 2002 ar Amddifadedd Cymdeithasol, gan gynnwys opsiynau ar gyfer cloriannu cynnydd ac opsiynau o ran diwyg yr adroddiad (paragraff 5.3).

11. Cytunodd y Gweinidog y gallai rôl archwilwyr mewnol gael ei hystyried ymhellach yng nghyd-destun y papur sydd i'w gyflwyno i'r Pwyllgor yn fuan ar y fframwaith moesegol i lywodraeth leol (paragraff 6.2).

12. Cytunodd y Cyfarwyddwr Tai i bennu'n glir ar ba ddyddiad y câi'r prisiad Hawl i Brynu ei osod yn ystod y broses trosglwyddo stoc (paragraff 8.4).

13. Cytunodd y Cyfarwyddwr Tai i ganfod pa un y gellid darparu’r atborth o seminarau’r Sefydliad Siartredig Tai ar *Gartrefi Gwell i Bobl Cymru* i’r Pwyllgor cyn y cyfarfod ar 14 Mawrth (paragraff 8.4).

14. Câi drafft diwygiedig o adroddiad yr adolygiad ar drosglwyddo stoc tai ei ystyried yng nghyfarfod 28 Mawrth (paragraff 8.5).